Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd**

**Cartref Preswyl Garreglwyd**
**Ffordd Garreglwyd**
**Caergybi**
**LL65 1NS**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

24/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ynys Môn |
| Lleoedd cofrestredig | 28 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28 Mawrth 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol y gofal a'r cymorth a ddarperir yn y gwasanaeth yn fawr. Mae anghenion gofal pob person yn hysbys, a chaiff y cymorth cywir ei ddarparu i ddiwallu ei anghenion. Mae cynlluniau personol ar waith i gofnodi anghenion unigol y bobl, ac mae'r rhain yn cael eu diweddaru'n barhaus. Maent yn cynnwys gwybodaeth am hoff ffyrdd y bobl o gael cymorth a'r ffordd y gellir diwallu eu hanghenion yn ddiogel. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod a gallant ddilyn eu harferion eu hunain. Mae'r gweithwyr gofal yn annog y bobl i barhau â'u hobïau ac maent yn hwyluso gweithgareddau grŵp ac un i un.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a rhoddir hyfforddiant iddynt sy'n berthnasol i'w rolau. Maent yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwyr. Cynhelir sesiynau goruchwylio a chyfarfodydd tîm yn rheolaidd. Mae niferoedd y staff yn briodol, a chaiff anghenion y bobl eu diwallu'n brydlon.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro pa mor dda y mae'r cartref yn cael ei redeg yn gyson. Mae'n ymweld â'r cartref gofal yn rheolaidd i gasglu adborth gan y bobl am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, ac mae'n cynnal hapwiriadau. Mae trefniadau ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ac i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddatblygu'r gwasanaeth.

## Llesiant

Gwrandewir ar leisiau'r bobl. Caiff yr hyn sy'n bwysig i bob person ei gofnodi yn ei gynllun gofal, fel bod y gweithwyr gofal yn gallu deall yr hyn sy'n bwysig i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Rhoddir dewisiadau i'r bobl mewn perthynas ag arferion o ddydd i ddydd, fel pryd mae'r bobl yn dewis codi a mynd i gysgu. Cofnodir dewisiadau pob person yn ei gynllun personol a dywedodd y bobl wrthym fod y gweithwyr gofal yn ymwybodol o'u dewisiadau ac yn eu parchu. Mae dewisiadau ar gael yn ystod pob amser bwyd a darperir amrywiaeth o wahanol fwydydd. Gofynnir i'r bobl am eu barn am y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Rhoddir ystyriaeth i'w hawgrymiadau mewn perthynas â datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Gwneir ymdrechion i helpu'r bobl i deimlo eu bod yn perthyn. Dywedodd y bobl wrthym y cawsant groeso cynnes pan wnaethant symud i mewn i'r cartref gofal, a'u bod yn teimlo eu bod wedi setlo ac wedi gwneud ffrindiau ag eraill. Mae ystafell pob person yn adlewyrchu ei bersonoliaeth ac yn cynnwys ei eitemau personol ei hun. Mae hyn yn helpu'r bobl i deimlo'n gyfforddus drwy gael eu heitemau cyfarwydd gyda nhw.

Mae'r bobl yn hapus yng nghwmni'r staff ac eraill sy'n byw yn y gwasanaeth. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd dyner, caredig a pharchus. Gwelsom y gweithwyr gofal yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r bobl, a gwnaethom eu clywed yn annog ac yn canmol y bobl mewn ffordd urddasol. Roedd y bobl yn chwerthin ac yn gwenu wrth ryngweithio â'r gweithwyr gofal. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn ceisio gosod anghenion a dymuniadau'r bobl wrth wraidd popeth a wnânt. Gwelsom fod y cynlluniau personol a'r cofnodion gofal yn dangos bod y gofal a ddarperir yn cael ei deilwra i anghenion penodol pob person.

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd addas sy'n annog ymdeimlad cadarnhaol o lesiant. Mae'r cartref yn lân, yn gynnes, yn gartrefol ac mewn cyflwr da. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel person. Mae'r amgylchedd wedi cael ei addasu fel bod y bobl sy'n byw gyda dementia yn gallu bod mor annibynnol â phosibl. Mae ardal awyr agored ddiogel a diddorol ar gael i alluogi'r bobl i dreulio amser mewn byd natur, os byddant am wneud hynny. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n rheolaidd, sy'n sicrhau bod y cartref yn cynnig amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo.

Caiff y bobl eu cefnogi o ran eu dewis iaith. Caiff y Gymraeg ei gwerthfawrogi a'i pharchu fel rhan o hunaniaeth y bobl. Mae arwyddion dwyieithog yn y cartref ac mae dogfennau pwysig

ar gael yn ddwyieithog. Mae nifer o'r staff gofal, uwch-aelodau o'r staff a'r Unigolyn Cyfrifol yn gallu sgwrsio â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Gofal a Chymorth

Mae trefniadau ar waith i ddeall anghenion gofal a chymorth y bobl cyn cynnig lle iddynt yn y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn casglu asesiadau ac asesiadau risg gan y gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn gweithio gyda'r person, fel rhan o'r broses cyn derbyn. Mae'r rheolwr hefyd yn cwrdd â'r bobl, a'u teuluoedd, er mwyn trafod anghenion pob person a deall ei ddisgwyliadau o'r gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn gallu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'r gwasanaeth yn addas ar eu cyfer. Mae'r rheolwr yn cwblhau dogfen asesu cyn derbyn, sy'n dwyn ynghyd yr holl wybodaeth a ystyriwyd, er mwyn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth i sicrhau y gellir diwallu anghenion y bobl yn y gwasanaeth.

Caiff y cynlluniau personol eu llunio ar y cyd â'r bobl, ac maent yn cofnodi dewisiadau'r person o ran sut mae am ei gael ei gefnogi yn fanwl. Maent yn cynnwys canllawiau mewn perthynas â sut y gall y gweithwyr gofal ddiwallu anghenion pob person mewn ffordd sy'n annog annibyniaeth ac yn diogelu urddas y bobl. Mae hyn yn hwyluso cysondeb o ran y cymorth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r cynlluniau yn cofnodi strategaethau y gall y gweithwyr gofal eu defnyddio, y gwyddys eu bod yn effeithiol ar gyfer pob person, pan fydd angen cymorth emosiynol arnynt. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael eu hystyried yn unigolion unigryw a bod y gofal a ddarperir yn cael ei deilwra'n benodol iddynt. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fydd anghenion y bobl yn newid. Lle y bo'n bosibl, mae cynrychiolwyr y bobl yn cael eu cynnwys yn yr adolygiadau. Mae'r cofnodion a gwblhawyd gan y gweithwyr gofal yn dangos bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn unol â'r cynlluniau personol sydd ar waith. Dywedodd y bobl, a'u teuluoedd, wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi ar gael i'r gweithwyr gofal sy'n cyfeirio at y gweithdrefnau diogelu cenedlaethol. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Roedd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus ynghylch y camau y dylent eu cymryd os bydd ganddynt unrhyw bryderon am lesiant y bobl. Mae'r rheolwr yn rhoi gwybod am faterion diogelu yn briodol i'r Awdurdod Lleol a rhoddir gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) hefyd. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth. Dywedodd perthnasau wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus bod eu hanwylyd yn ddiogel yn y gwasanaeth. Pan fydd angen rhoi cyfyngiadau ar waith, i amddiffyn diogelwch y bobl, caiff yr awdurdodiadau ffurfiol cywir eu cymhwyso er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon bob amser.

## Yr Amgylchedd

Darperir cymorth mewn amgylchedd diogel a chartrefol sy'n annog annibyniaeth. Gwelsom fod rhai ardaloedd o'r cartref wedi cael eu haddasu'n benodol i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw gyda dementia. Mae hyn yn cynnwys y math o ddodrefn a ddarperir, lliwiau'r décor a dyluniad yr ystafelloedd ymolchi. Ceir arwyddion darluniadol ac yn y ddwy iaith, sy'n helpu'r bobl i ganfod eu ffordd wrth gerdded o gwmpas y cartref. Mae'r cartref gofal wedi'i wahanu'n ardaloedd llai, sy'n ei gwneud hi'n haws i'r bobl ymgyfarwyddo â'u hamgylchedd ac i deimlo'n gyfforddus yn eu lleoliad.

Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yn yr adeilad er mwyn sicrhau ei fod mewn cyflwr da. Caiff staff cadw tŷ eu cyflogi, ac maent yn sicrhau bod pob ardal o'r cartref yn lân ac yn arogleuo'n ffres. Caiff gwaith cynnal a chadw gofynnol ei nodi a'i gwblhau'n brydlon, sy'n sicrhau bod amgylchedd byw y bobl yn cael ei gynnal i safon dda.

Mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli â'u heiddo eu hunain, sy'n eu galluogi i deimlo'n gartrefol yn eu lle eu hunain. Mae lolfeydd cymunedol ac ystafelloedd bwyta ar gael lle y gall y bobl dreulio amser gydag eraill, os byddant yn dewis gwneud hynny. Gwelsom fod y bobl hefyd yn defnyddio'r ystafell fwyta fwy i fwyta eu prydau gyda phobl sy'n byw mewn ardaloedd eraill o'r cartref.

Mae ardaloedd awyr agored hygyrch, diddorol a diogel ar gael er mwyn i'r bobl allu treulio amser yn yr awyr agored, os byddant am wneud hynny. Darperir byrddau a chadeiriau, yn ogystal â chyfleusterau garddio, fel tŷ gwydr a gwelyau planhigion uchel. Roedd y bobl wedi gofyn yn ystod cyfarfodydd preswylwyr am gael anifeiliaid anwes bach yn y cartref. Gwelsom fod moch cwta wedi cael eu prynu ac yn byw mewn cabanau yn yr ardd. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl yn mwynhau mwytho a gofalu amdanynt.

Mae trefniadau ar waith i reoli risgiau i iechyd a diogelwch yn y cartref. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau'n rheolaidd i fonitro diogelwch yr amgylchedd. Mae systemau diogelwch tân ar waith i sicrhau bod y rhagofalon priodol ar waith os bydd tân. Mae gan bob person gynllun ysgrifenedig ar waith sy'n nodi'r cymorth sydd ei angen arno i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod dyfeisiau a chyfarpar yn cael eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal newydd yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau cyn i bobl newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal hefyd yn cwblhau shifftiau cysgodi gyda staff mwy profiadol, fel rhan o'u cyfnod sefydlu yn y gwasanaeth. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael amser i ddarllen y cynlluniau personol cyn iddynt weithio gyda'r bobl yn annibynnol.

Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Dywedodd y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gweithio'n dda fel tîm, a gwnaethant gadarnhau eu bod yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Gwelsom fod hyfforddiant gorfodol yn cael ei ddarparu yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar ddementia. Mae hyn yn hybu sail wybodaeth a sgiliau'r gweithwyr gofal fel eu bod yn gallu rhoi'r cymorth cywir i'r bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal a'r rheolwr yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd, sy'n rhoi'r cyfle iddynt drafod eu gwaith a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant newydd. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, sy'n rhoi'r cyfle i rannu gwybodaeth a chael arferion da. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod y rheolwr yn deg a bod yr Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd ato, a'u bod yn teimlo eu bod yn gallu codi unrhyw bryderon os oes angen. Dywedodd y perthnasau wrthym fod y gweithwyr gofal a'r rheolwr yn *"open and approachable and they listen".*

Mae'r lefelau staffio'n adlewyrchu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn teimlo bod y lefelau staffio yn ddigonol a'u bod yn gallu diwallu anghenion y bobl heb ruthro. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y gweithwyr gofal yn ymateb i anghenion y bobl wrth iddynt godi, gan gynnwys pan nad oedd y bobl gallu gofyn am gymorth eu hunain. Gwelsom y gweithwyr gofal yn treulio amser yn siarad â'r bobl ac yn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau. Mae'r rotas yn dangos bod staff cegin a staff cadw tŷ yn cael eu cyflogi, sy'n golygu bod y gweithwyr gofal yn gallu canolbwyntio'n llwyr ar gefnogi'r bobl. Defnyddir staff asiantaeth pan fo angen, er mwyn sicrhau bod y lefelau staffio bob amser yn unol â'r hyn a nodir yn y datganiad o ddiben.

Mae trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gofynnir i'r bobl yn rheolaidd am eu hadborth ar y gwasanaeth y maent yn ei gael Gwelsom fod cyfarfodydd preswylwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y bobl yn cael eu cefnogi i rannu eu barn. Mae adroddiadau yn dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis o leiaf, fel rhan o'i drefniadau i oruchwylio'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal fel rhan o'i ymweliad. Mae hefyd yn cynnal archwiliadau ac yn gwirio sampl o gofnodion. Mae adolygiadau ffurfiol o ansawdd y gofal yn

cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn. Mae'r broses hon yn mesur pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn perfformio ac yn ystyried pa feysydd o'r gwasanaeth y mae'n bwriadu eu datblygu ymhellach.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 19 | Nid yw'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol am y ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. | Cyflawnwyd |
| 36 | Ni chaiff cyfarfodydd goruchwylio un i un rhwng y staff a'r gweithwyr gofal eu cynnal yn chwarterol, fel sy'n ofynnol. Nid yw pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/10/2024